

Datblygiad Ysgol a Chynnydd Disgyblion

Rhagarweiniad

Sonia'r traethawd am ddadansoddiad manwl o ddatblygiad cyfannol disgybl a chyfiawnhau'r camau dysgu nesaf. Cynhaliwyd yr ymchwiliad yn ysgol gynradd fawr ar gyrion dre Caerfyrddin. Yn ol my local school (2018) mae 358 o blant yn yr ysgol. Sonia Estyn (2017) tua 5% o'r disgyblion sy'n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim. Mae'r canran yma yn sylweddol is na'r canran cenedlaethol. Mae'r disgybl sylw yn ferch 6 mlwydd oed yn flwyddyn 1. Rhannwyd yn uned 1 a 2 mewn i 3 dosbarth. Mae'r disgybl yn y dosbarth un ffrwd blwyddyn 1 yn y grŵp gallu gwaelod ac mae angen cam ymlaen er mwyn iddynt symud i'r grŵp gallu nesaf. Nid yw'r disgybl yn dod o deulu Gymraeg. Mae'r ferch dan sylw yn groen du ac yr unig blentyn creon du yn yr uned. Nid oes pryder ymysg y staff am hiliaeth ond mae'r disgybl dan sylw yn teimlo ei bod yn wahanol i weddill y disgyblion. Wrth greu hunan bortread gyfer y proffil dewch i'ch nabod (Gweler atodiad 1) nododd "fi'n du a does neb arall yn du". Dyma'r agwedd gall dylanwadu a lles y disgybl yma. Iaith yw'r brif her gan ei bod yn ddylanwadau ar yr agweddau eraill. Nid yw'n hyderus yn darllen yn uchel os yw'r dasg yn waith grŵp. Wrth ddarllen yn rheolaidd mae'n cymysgu b a d, ll a th, ff a f. Wrth ddarllen mae'n dyfalu dechreuad megis mae ac roedd. Mae'n dadgodio geiriau yn dda er mwyn segmentu'r gair. Mae'r cam llyfrau mae'n darllen nawr yn ail adroddes felly y tro gyntaf mae'n darllen mae gweld y darn yn heriol iawn ac yn dyfalu geiriau er hynny gan fod yn llyfr yn ail-adrodd erbyn diwedd y llyfr mae'n sylweddoli taw ond yr enw sy'n newid yn y brawddegau. Nid yw'n barod i symud ymlaen i'r cam nesaf sef llyfrau Rydychen.

Casglu data

Nid ddylid gwneud unrhyw waith ymchwiliad tan eich bod wedi derbyn caniatâd ac yn dilyn canllawiau BERA (2018), chod ymarfer Moeseg ac Integredd Ymchwiliad PCYDDS 2017-2010 a chanllawiau'r Cyngor Gweithlu Addysgu (EWC) (2016). Llofnodwyd y pennaeth a'r tiwtor dosbarth y ffurflen caniatâd (Gweler atodiad 2) i gynnal yr ymchwiliad o fewn yr ysgol. Nid yw'r bosib o'r wybodaeth sy'n cael ei thrafod yn yr ymchwiliad i adnabod y disgybl wrth ddilyn canllawiau BERA (2018: 21) 'The confidential and anonymous treatment of participant' data

is considered the norm for the conduct of research'. Dilynwyr canllawiau BERA (2018) i gadw'r data yn anhysbrwydd wrth gyfeirio at y disgybl a'r ysgol dan sylw fel disgybl ac ysgol. Llofnodwyd y rheini/gwarchodwr y daflen caniatâd (Gweler atodiad 3) a esboniwyd y pwrpas mewn modd clir a dealladwy. Cafwyd caniatâd gwirfoddol gwybodus y cyfranogwyr wrth esbonio pwrpas yr ymchwiliad mae modd addas i'w oedran, gallu ac mewn modd dealladwy wrth ddilyn canllawiau BERA (2018). Roedd Erthygl 12 hawliau plant Confensiwn Cenhedlodd Unedig ar Hawliau Plant (CCUHP) sef dylai plant gael llais mewn materion sy'n effeithio arnynt yn ganolbwynt i'r traethawd (Comisiynydd Plant Cymru, Dim Dyddiad). Roedd llais y plentyn yn bwysig iawn ac roedd ganddi'r hawl i dynnu nôl ar unrhyw aged pe bai yn dymuno. Yn ôl Blaxter (2007) mae egwyddorion methodoleg a chynllun yr ymchwiliad yn faterion moesegol sydd angen ystyried nid unig hawliau plant a chyfrinachedd.

Casglwyd y data gan fabwysiadu'r Dull mosaig wrth wrando ar lais y disgybl. Noda Clark a Moss (2011) yn ddiweddar mae gwrando ar hawliau disgyblion wrth gyflawni ymchwiliad yn cael ei ystyried sut mae'n ddisgybl yn gweld ei hun fel dysgwyr. Noda Greenfeild (2013) bod y dull mosaig yn defnyddio amryw o ddulliau i ymchwilio mewn i farn a chanfyddiad plant. Mae canfyddiadau disgyblion yn cael deall yn well pryd mae'r ymchwilydd yn treulio amser yn y lleoliad gyda'r cyfranogwyr. Fodd bynnag, mae yna gwedid i'r dull yma gan nad yw'r dull yn y ffordd syml o gasglu data a trwy ddefnyddio o amryw o ffynonellau i gasglu data mae'n cymryd llawer o amser i ddadansoddi'r holl ddata (Clark a Moss, 2011). Y gwahanol ddata casglwyd oedd arsylwi, cyfweiliad gyda'r plentyn a'r athrawon, samplau o waith, cofnodion darllen, adroddiad dysgu a thargedau'r disgybl gan gynnwys inserts a thaith dysgu.

Cenhedlwyd cyfweiliad lled strwythedig gyda disgybl er mwyn casglu data am ei barn a theimladau'r dysgwyr. Sonia Newby (2014) bod angen holi cwestiynau penagored os ydych am i'r drafodaeth llifo yn fwy naturiol ac i'r cyfranogwyr ymhelaethu wrth ateb. Fodd bynnag, mae rhaid cydnabod y cyfyngiad oherwydd gall y cyfranogwyr fod yn ateb i plesio ymchwilydd yn lle rhoi ateb onest. (Bell a Walters, 2014). Yn ôl Lavis (2016) i gael atebion sy'n fwy tebygol o fod yn gwir mae angen i'r cyfranogwr i fod yn amgylchedd mae'n gyfarwydd gyda felly cynhaliwyd y cyfweiliad yn gefn yr ystafell dosbarth. Nid oeddwn am i'r amgylchedd dylanwyo ar ddilysrwydd a dibynadwyedd atebion y cyfranogwyr.

Yn ôl Estyn (2014) er mwyn cofnodi canfyddiadau'r arsylwi neu gael data a thystiolaeth mae angen defnyddio ffurflen sy'n addas ac yn darparu tystiolaeth uniongyrchol am ansawdd y dysgu ac addysgu. Defnyddiwyd ffurflen y brifysgol fodd bynnag dylid nodi mae anodd cofnodi pob beth ar y daflen. Mae'n ddull o gasglu data ansoddol. Mae yna gyfyngiadau i arsylwi oherwydd nid oed gan bobl yr un profiadau sy'n dylanwadu ar hyn rydym yn ffocysu ar wrth arsylwi (Mukherji a Albon, 2015). I sicrhau dibynadwyedd wrth arsylwi mae angen ceisio atal rhagfarn, dyfalu personol a gwerthusiad (Mukherji a Albon, 2015).

Defnyddiwyd samplau o waith, adroddiad llynedd a thargedau nos rheini i gasglu data a thystiolaeth am y dysgwyr gyfer y cam ymlaen.

Dadansoddi'r dysgwyr

Wrth gasglu data am y disgybl dadansoddwr barn gyfannol y dysgwyr am ddysgu gan ddefnyddio model ASK Nottingham (2013). Mae yna 3 darn i'r model sef agwedd, sgiliau a gwybodaeth. Wrth edrych ar agwedd mae gan y dysgwyr agwedd bositif tuag dysgu wrth nodi yn y cyfweiliad lle strwythedig "fi lico ysgol cael gweld ffrindiau a dysgu". Er hynny, mae'r agwedd yn newid tuag at iaith newid, "dim hoffi, dim gwastad yn dda".

Iaith

Nid oes gan y disgybl agwedd dda tuag at iaith. Nid yw'n hoffi iaith oherwydd nid yw'n gallu darllen yn gyflym. Mae'n araf iawn yn darllen. Os nag yw'r disgybl yn deall y dasg mi fydd yn rhoi'r gorau iddi yn hytrach na dyfal parhau fel byddai'n gwneud yn fathemateg. Wrth arsylwi'r disgybl yn ystod sesiynau iaith yn ystod y cyflwyniad mi fydd y disgybl yn gwrando fodd bynnag, os bydd yr athrawes yn holi cwestiwn gyfer y dosbarth cyfan nid yw'r rhoi llaw fyny. Nid oedd ganddi ddigon o hyder ac yn pryderu bod yr ateb yn anghywir yn lle trial. Targed y disgybl yn Hydref 2018 oedd cyfrannu yn fwy yn y dosbarth ac yn ystod amser cylch. Mae data yma yn dangos nid oes gan y plentyn cymhelliad a dyfalbarhad i ateb o fewn sesiynau iaith a gylch sef agwedd yn ol model ASK. Mae hyn yn gysylltiedig â damcaniaeth Bandura (1997) ar hunaneffithiolrwydd. Sonia Grey a Macblain (2012) bod disgyblion sydd gydag aneffithiolrwydd isel yn dueddol o osgoi gwneud tasgau sy'n cynnwys her, ffocysu ar

yr agwedd negyddol a ffarmio eu meddwl o fewn lluniad ble maent wedi argyhoeddi ei hun nid ydynt yn medru llwyddo. Er hynny, mae'r damcaniaeth cymdeithasol Bandura (1997) yn ffocysi ar unigolyn mae damcaniaethwr cymdeithasol eraill yn cymryd ffactorau eraill sy'n dylanwadu ar blant wrth dyfu fyny megis ffactorau cymdeithasol, economaidd, gwleidyddol. Yn ol Grey a Macblain (2012) mae damcaniaeth cymdeithasol Bronfenbrenner yn ychwanegu agwedd arall i waith Bandura ac yn cynnig gwell dealltwriaeth o sut mae plant yn dysgu a'r gwahanol ffactorau cymdeithasol sy'n dylanwadu ar ei magwraeth nes oedolion.

Wrth edrych ar yr agwedd y sgiliau ar draws cyfres o wersi amlygu ei bod yn cyffwrdd gofynion deilliant 4 yn iaith. Wrth dracio ei chynnydd ar insets mae'n debygol o gyrraedd deiliant 5 yn iaith erbyn blwyddyn 2 os yw'r agwedd o lafaredd a darllen yn cael ei thargedu. Ar hyn o bryd cyfartaledd iaith yw 4c. Mae agwedd o lafar yn 3a sydd o dan y cyfartaledd dosbarth o 4b. Mae'r agwedd darllen yn 4.21c. Mae'r agwedd o ysgrifennu sy'n uwch ar inserts sef 4.45b. Mae'r gwerth nodi nid oes modd derbyn yn holl ganlyniadau yma gan fod rhai elfennau o'r inserts cael ei chyflawni'r tymor yma ac yn cael ei chyflawni tymor nesaf. Nid oes gennym ddarlun cyfan yma. Wrth ddarllen gyda'r disgybl yn rheolaidd mae'n mwynhau darllen ond medru gweld yn heriol i ddarllen. Mae'n darllen llyfrau dwi'n darllen ac ar gam un. Mae datblygu gwybodaeth y disgybl am wahanol lythrennau. Wrth ddarllen yn rheolaidd nid yw'r adnabod b, d, f, ll, th, rh (Gwelir atodiad 4). Mae ganddi'r sgiliau a gwybodaeth i ddarllen wrth iddi ddadgodio ac ar y degau segmentu. Er hynny nid yw'n ymwybodol o bob llythyren felly nid yw'n darllen y gair cywir. Mae cyfarwydd iawn â geiriau aml ddefnydd ond gan fod y llyfrau yn ailadroddus mae'n dyfalu rhai geiriau yn lle darn. I'r dyfodol bydd ymwybyddiaeth o bob llythyren o'r wyddor yn fuddiol iddi ac yn helpu datblygu sgiliau darllen.

Corfforol

Nid wyf wedi cael y cyfle i ddysgu dau wahanol dau faes dysgu ar ymarfer dysgu o ganlyniad i ymarferion mabolgampau ysgol a mabolgampau ysgol ac mae'r ysgol yn addysgu tîm a gwybodaeth a dealltwriaeth yw'r prif bwnc rwyf wedi dysgu ar ymarfer dysgu. Rwy'n ymwybodol o'i gallu corfforol ond nid oes gennyf ddigon o dystiolaeth wrth gasglu data mosaic ar ymarfer corff i ddadansoddi. Dyma wendid o ddefnyddio'r dull mosaig i gasglu data gan fod angen mwy na un ffynhonnell ac nid oes gennyf y dystiolaeth. Roedd un wers ymarfer corff dysgais sgiliau criced, fodd bynnag roedd y disgybl yn absennol gyfer y sesiwn hynny.

Gan ein bod yn ymarfer cyfer y mabolgampau yn rheolaidd dyma beth rydym wedi bod yn gwneud yn wersi ymarfer corff. Mae agwedd y disgybl tuag at chwaraeon neu ymarfer corff yn bositif. Mae'n mynychu clwb gymnasteg leol ar ôl ysgol ac wedi bod yn llwyddiannus iawn wrth ddod mewn ag amryw o fedalau o gystadlaethau diweddar. Braf yw gweld ei balchder yn blaen y gwasanaeth yn dal y medalau.

Noda Chwaraeon Cymru (dim dyddiad) bod llythrennedd corfforol yr un mor bwysig â sgiliau darllen ac ysgrifennu. Wrth i ddisgyblion ddysgu'r sgiliau o redeg, neidio, taflu a chadw cydbwysedd caiff sgiliau corfforol eu cysylltu â'i gilydd i greu cymalau symud er mwyn cyflawni gweithgareddau megis reidio beic a nofio. Roedd arsylwi yn ystod sesiynau ymarferion mabolgampau yn heriol gan fy mod yn gyfrifol am arwain y disgyblion i ddechrau'r ras felly roeddwn yn colli rhai agweddau. Mae'r disgybl medru redeg mewn llinell sych a chyfer y ras antur medru defnyddio'r cyfarpar yn gywir. Mae sgiliau cydsymud llygad â llaw yn dda gan ei bod yn medru dal a thaflu pêl tuag at darged yn gywir.

Wrth arsylwi yn ystod gwersi mae'n dal pencil yn gywir gan ddefnyddio gaffael trybedd. Noda Llywodraeth Cymru (2017) trwy ddefnyddio'r dull yma mae'r weithred o ysgrifennu yn dod yn naturiol. Wrth feistrolï'r sgiliau yma mae'r disgyblion yn canolbwyntio ar y gwaith sydd angen cyflawni yn hytrach na meddwl am y sut i ddal y cyfarpar.

Gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd (GaDB)

Wrth fynd ar daith dysgu o amgylch yr ysgol mae'r uned blwyddyn 1 a 2 wedi rhannu mewn 3 ystafell sef iaith, mathemateg a GaDB, Nododd yn y cyfweiliad taw dosbarth Miss gwallt syth yw ei hoff ardal yn yr uned. Mae agwedd tuag at wybodaeth a GaDB yn bositif gan ei bod yn mwynhau. Ar y daith dysgu nododd hoffi'r dosbarth yma gan ei bod yn gwneud gwaith sy'n hwyl. Er mwyn cael rhagor o wybodaeth wnes i holi pam. Nododd ni'n gwneud gwaith hwyl fel plannu ffa gyda thi cael lot o sbri. Wrth edrych ar yr agwedd o sgiliau'r Model ASK sy'n cyfeirio at y gallu i gario gweithredodd gyfer ennill dealltwriaeth a chyflawni perfformiad arbennig mewn unrhyw cynnwys (Nottingham, 2013). Wrth ddadansoddi sgiliau cymdeithasol/corfforol a meddwl yn ystod y sesiwn mae'n medru cyflawni'r gwaith ac yn cyfathrebu gyda gwahanol aelodau o'r grŵp gwyrdd wrth gyflawni'r dasg. Wrth edrych ar

waith y plentyn o fewn y gwersi GaDB (gwelir atodiad 5)mae wedi cyflawni'r nod gyfer y dasg. Roedd y disgybl yn medru darllen y brawddegau gan ein bod wedi plannu'r ffa yn gyntaf wedyn yn medru trefnu'r llun a brawddeg i gyfateb y lluniau. Roedd y dysgwyr yn deall ystyr dyfrio ac yn medru darllen y gair heb ddatgodio. Gyfer y rhan gwybodaeth o'r model mae'r wybodaeth o'r gwaith rydym wedi cyflawni wedi bod yn dda gan ei bod yn deall y cydsyniad. Mae'r rhaid cydnabod bod y gwaith rydym wedi bod yn cyflawni wedi bod yn ymarferol ac yn waith mae'r disgybl yn mwynhau.

Mathemateg

Ar draws y gyfres o wersi mathemateg amlygu ei bod yn cyffwrdd a deilliant 4 ac erbyn blwyddyn 2 yn ddeilliant 5 gadarn. Mae tystiolaeth inserts yn cyfateb gan ei bod yn ddeilliant 4b ar hyn o bryd. Mae agwedd tuag at fathemateg yn dda. Mae'n mwynhau a chanolbwyntio ac mi fydd yn rhoi llaw fyny ar y degau yn ystod cyflwyniadau mathemateg. Mae'r disgybl yn hoffi fy mod yn defnyddio ffyn lollipop oherwydd yr agwedd o 'syprise' o bwy fyddai'n dewis i ateb. Nid yw'r hoffi datrys problem eiriol yn ôl yr athrawes gan ei bod yn gweld y rhan darllen yn heriol. Mae ganddi'r sgiliau a'r ddealltwriaeth yn fathemateg. Mae'n ffurfio rhifau yn gywir a deall y gwahanol symbolau. Mathemateg yw ei phwnc cryfach. Er hynny, nid yw'r disgybl wedi deall y cysyniad o roi newid. Deallodd creu cyfansymiau arian hyd at £1 gyda chymorth ond nid yw'r disgybl wedi deall y cam nesaf. Nid oes gennyf dystiolaeth o waith wedi cwblhau ond mae'n bosib gweld copïo o'r daflen waith a'r daflen cofnod olrhain y diwrnod hynny (Gwelir atodiad 6) Nod y wers oedd rhoi newid o 20c a 30c. Roedd y disgybl yn deall bod angen cyfri ymlaen i ddarganfod y newid. Er hynny, nid oedd yn ymwybodol pa rif i gyfri nes. Roedd ganddynt adnoddau llinell rhif er mwyn helpu cyfri ymlaen. Roedd y disgybl yn deall rhoi newid hyd at 20c er hynny nid oedd yn deall y cysyniad o 30c. Roedd llinell amser 0-30 ar gael i'w help. Ar ddechrau'r dasg roedd y cwestiynau gyntaf 1 mas pob tro. Roedd y disgybl yn gwneud camgymeriad wrth gyfri ymlaen hyd at 20. Fyddai'n dechrau cyfri ar y rhif anghywir. Sonia McAteer (2012) bod camgymeriadau yn digwydd am 2 rheswm sef bod y camgymeriad yn ddamwain neu fod camgymeriad yn cael ei arwain gan gamsyniad. Mae'r disgybl yn medru cyfri ymlaen gan ddefnyddio ei bysedd yn iawn ond nid oedd yn dechrau ar y llew cywir ar y llinell rhif. Ar ôl gweld y disgybl yn gwneud y camgymeriad yma trafodwyd y camgymeriad wrth greu enghraifft gyda'n gilydd ac roedd y disgybl yn deall. Roedd ei agweddau a'i sgiliau

yn eithaf cadarn gyfer newid. Nid oedd wedi rhoi'r gorau iddi fel mae'n gwneud yn dasgau iaith. Nid oedd y wybodaeth ganddi. Nid oedd yn deall y cysyniad na'r ffeithiau. Nid ydyn yn symud ymlaen i siâp ar ôl hanner tymor rydym yn ail adolygu arian felly gobeithio wrth esbonio a modelu yn well fydd y disgybl yn deall y cysyniad o roi newid.

Lles

Ar y cyfan wrth arsylwi'r disgybl ar hyd o bryd mae gweld yn ddigon hapus ac yn mwynhau dod i'r ysgol fel nododd yn y cyfweiliad "lico ysgol, gweld ffrindiau a gwneud gwaith". Mae lles yn rhan bwysig o argymhellion Donaldson (2015) yn ddyfodol llwyddiannus wrth iddo nodi er mwyn i ddisgyblion llwyddo yn addysgu mae'r rhaid iddynt dderbyn lle cymdeithasol, corfforol ac emosiynol. Gan fod yr ysgol yn arloesi'r agwedd o les mae lles yn rhan bwysig o fywyd ysgol. Ar ôl cinio am 30 munud mae'r disgyblion yn cael sesiwn lles. Mae'r strwythur yn amrywio o ddydd i ddydd ac mae'r disgyblion yn cael cyfle i drafod. Os bydd y disgyblion yn eistedd fewn cylch ac yn trafod teimladau ac yn dweud ei theimladau pryd mae'r bag ffa yn cyrraedd y disgybl ni fydd y disgybl yn ateb. Eto nid oes gan y disgybl ddigon o hyder i ateb o flaen dosbarth cofrestru. Mae'n ddisgybl gofalgwr sydd o hyd yn gofalu am eraill a chydabyddi hyn yn flynyddol yn ei adroddiadau wrth iddi ofalu am ddisgybl yn ei dosbarth cofrestru sy'n awtistig. Mae angen iddi ddatblygu hunan hyder. Nid oes gan y disgybl yr her yn ystod cyflwyniad rhan fwyaf o wersi hyder i'w rhoi ei llaw fyny i ateb cwestiwn. Mae'r pryderu gormod os fydd yr ateb yn anghywir bydd pawb yn chwerthin arni. Wrth drafod gyda'r athrawon dosbarth yn lle gofyn am gymorth yn yr ystod dasg, fydd y disgybl yn datblygu meddylfryd negyddol a theimlo nid yw'n bosibl gwened y dasg. Mae angen ddatblygu meddylfryd twf er mwyn iddi ddod yn fwy hyderus a datblygu gwydnwch.

Camau nesaf

Dangoswyd yr holl ddata a dadansoddwyd 3 agwedd penodol sydd angen targedi fel y cam nesaf.

- 1) Datblygu meddylfryd twf
- 2) Tric a chlic - adnabod llythrennau

3) Modelu/sgaffaldu.

Datblygu meddylfryd twf

Dangoswyd y data bod angen datblygu meddylfryd twf y disgybl. Noda Nottingham (2013:97) bod meddylfryd twf yn golygu 'thinking about thinking'. Carol Dweck ddatblygodd y syniad o ddatblygu meddylfryd twf wrth nodi bod unigolion sy'n credu yn ei donau trwy waith caled, strategaethau da a mewnbwn o eraill efo meddylfryd twf (Dweck, 2016). Mae disgyblion efo meddylfryd twf yn dueddol o lwyddo i gymharu â rhai sydd heb oherwydd nid ydynt yn pryderi cymaint ond rhoi'r egni mewn i ddysgu (Dweck, 2016). Nid oes gan y disgybl yr hyder i roi llaw fyny ystod cyflwyniad neu i drafod o flaen y dosbarth gan ei bod yn pryderu am os yw'r ateb yn anghywir. Hefyd mae angen iddi i beidio rhoi'r gorau iddi yn ystod tasgau ac i ddyfal parau. Os nag yw'r disgybl medru cyflawni tasg nid yw'n meddwl am trial eto ond yn hytrach rhoi'r gorau iddi. Noda James Nottingham (2018) bod cysylltiad Dweck o feddylfryd a hunan-barch yn gryf iawn. Yn pit dysgu Nottingham (2018) sy'n helpu adeiladu gwytnwch, doethineb ac aneffeithiolrwydd disgyblion os yw'n cael ei ddefnyddio fel strwythur i addysgu a medru arwain at godi safonau. Mae Estyn (2018) yn son am y pit dysgu Nottingham gyfer da Ysgol Gynradd Coed Efa i ddatblygu meddylfryd twf disgyblion.

Noda Hattie (2012) mae'n rhaid i athrawon cofio'r dylanwad maent yn cael ar y disgyblion ac mae'r athrawon gorau yn cael y dylanwad da ar y disgyblion. Gall trafod am ddatblygu meddylfryd twf yn ystod sesiwn cylch sy'n ffocysu ar les cael dylanwad da ar y disgybl ffocws ond hefyd ar nifer o ddisgyblion arall y dosbarth. Noda Education Endowment Foundation (Dim dyddiad) bod datblygu meddylfryd twf yn gweithio yn well os yw'n cael ei dysgu mewn grwpiau wrth i ddysgwyr cefnogi ei gilydd a thrafod wrth feddwl. Wrth ddatblygu'r strategaethau gwahanol er mwyn annog meddylfryd twf gall arwain i ddisgyblion i fod yn fwy hyderus i ateb cwestiynau ac i beidio rhoi'r gorau iddi os nad ydynt yn gwybod yr ateb.

Noda Grigg (2010) bod datblygu hyder ddim yn unig am ddatblygu meddylfryd postif ond mae angen ddatblygu strategaethau anadlu er mwyn i'r disgyblu ymlacio a bod mewn amgylchedd lle maent yn hapus. Mae'r disgyblion yn gwneud yoga un waith yn y bore a phrynhawn ar ôl sesiwn cylch cyn cylchdroi dosbarthiadau. Gall fod yn syniad i gyflawni yoga ar ddechrau gwrs

ar ôl i'r disgyblion cylchdroi ystafelloedd yn hytrach nag cyn cylchdroi. Wrth wneud hyn fydd disgyblion wedi ymlacio yn yr amgylch yr ystafell dosbarth.

Yn ol Education Endowment Foundation (Dim dyddiad) canlyniadau ddatblygu meddylfryd twf yw 7 mis o gynnydd ar ddatblygiad plentyn yn ôl tystiolaeth eang ac mae'r gost o weithredu yn isel. Mae'r dystiolaeth o ddefnyddio strategaethau meddylfryd twf yn annog i ddisgyblion i feddwl am ei dysgu a medru bod gwerth 7 mis o gynnydd ar blentyn os yw'n cael ei ddefnyddio yn dda. Mae ymchwil y Education Endowment Foundation (Dim dyddiad) yn cydnabod bod yn botensial o effaith medru fod yn uchel yn enwedig i ddisgyblion difreintiedig, nid oes cymaint o dystiolaeth am sut i'w gweithredu yn effeithiol yn yr ystafell dosbarth. Ar y llaw arall nododd y The Guardian (2018) fe wnaeth disgyblion mewn ysgolion yn Lloegr cynnydd o ddwy fis ar gyfartaledd o ganlyniad i ymyrraeth datblygu meddylfryd twf ond maent yn nodi gall y datblygiad fod lawr i siawns. Sonia Estyn (2018) am arfer dda Ysgol Gynradd Coed Efa gyfer ddatblygu meddyfrwd twf disgyblion. Datblygwyd strategaethau i ddatblygu hyder, annibyniaeth a gallu disgyblion i oresgyn heriau yn eu dysgu. Dyma fath beth sydd angen i'r disgybl dan astudiaeth ddatblygu er mwyn dod yn fwy hyderus a datblygu gwydnwch. Datblygwyd y diwylliant o ddatblygu meddyfrwd twf trwy ddefnyddio cymeriadau a storiâu perthnasol. Canlyniad yr arfer yma yn yr ysgol yn ôl Estyn (2018) yw bod lles ac agwedd y disgyblion tuag at ddysgu yn uchel, maent yn barod i fentro ac ymgymryd â sgiliau newydd, datblygu medrau dysgu'n annibynnol yn dda ac yn cydweithio yn dda mewn grwpiau felly mae eu hyder i siarad a rhannu syniadau gydag eraill yn datblygu'n dda iawn.

Tric a Chlic

Dangoswyd yr holl ddata a dadansoddwyd nid oedd y disgybl medru adnabod gwahanol lythrennau ac yn bennaf b, d, ll, rh, th, f a ff oedd y llythrennau roedd y disgybl ddim yn adnabod wrth ddarllen yn rheolaidd. Felly, i gyd fynd gyda'r agwedd yma mae'n syniad bod y disgybl medru adnabod holl lythrennau'r wyddor yn hyderus. Wrth ddarllen mae defnyddio'r sgiliau darllen cywir i ddarllen wrth ddadgodio geiriau ac ar rhai achosion medru segmentu wrth rannu gair yn elfennau yn gywir oes oedd yn adnabod y llythrennau yn gywir. Mae'n gyfarwydd gyda geiriau aml eu defnydd ac yn medru darllen mae yn gywir. Y methu adnabod pob llythyren sy'n arwain at y disgybl i ddadgodio a dweud y gair anghywir. Yn ol Canolfan

Peniarth (2015) pwrpas tric a chlic yw cynllun ffoneg synthetig, systematig sy'n addysgu sgiliau ffoneg synthetig sy'n sail i addysgu darllen.

Yn ol Education Endowment Foundation (Dim dyddiad) mae datblygu ffoneg ddisgyblion yn ddull effeithiol iawn i gefnogi dysgwyr i ddarllen ac i feistroli'r sgiliau sylfaenol o ddarllen. Ar gyfartaledd mae gan ffoneg 4 fis o ddatblygiad plentyn ac mae'r ymchwil yn awgrymu bod ffoneg yn fuddiol iawn i ddisgyblion 4 i 7 oed sy'n dechrau darllen. Mae'n rhaid cydnabod bod yr ymchwil yma yn cyfeirio at ffoneg ac nid tric a chlic gan fod tric a chlic yn gynllun Gymraeg. Mae ymatebion i tric a chlic yn argoeli yn dda wrth i bennaeth ysgol Gymraeg y Fenni nodi edrych i weld sgiliau'r plant yn cynyddu wrth ddilyn y cynllun tric a chlic Peniarth (2015).

Noda Peniarth (2015) bod disgyblion yn symud yn gyflym o un cam i'r llall. Mae'r disgybl yn barod yn gyfarwydd â rhai o'r llythrennau felly bydd yn bosib iddi symud trwy'r camau yn gyflym. Mae Peniarth (2015) yn argymhell 5 munud y dydd o fynd trwy'r synau yn gyflym. Noda Estyn (2007) bod ysgolion yn amrywio yn faint o ffoneg maent yn cyflwyno'r wythnos. Yn ol Estyn (2007) yr arfer orau yw cyflwyno set pob wythnos sy'n golygu bod ymdrin â'r rhaglen yn gyflym felly gan ddisgyblion y medrau i ddechrau darllen ynghynt.

Mae'n bosib i rieni cael pecyn cymorth i gefnogi. Mae mam y disgybl yn gefnogol iawn ac mae'n darllen gyda'r disgybl yn rheolaidd wrth weld ei chofnod llyfr darllen. Er hynny, nid yw'r fam yn siarad Cymraeg nid yw'r siŵr os yw'r disgybl yn darllen y llythrennau cywir. Mae gan y disgybl frawd hyn ac mae'r fam yn annog y brawd i wrando ar y chwarae yn darllen. Noda Llywodraeth Cymru (2014) bod rhaglenni fel Pori Drwy Stori a Dechrau Da yn hyrwyddo datblygiad iaith gynnar plant. Mae'r llyfrau a'r adnoddau yn ddwyieithog ac yn annog y rheini/gofalwyr i gefnogi llythrennedd ei phlant.

Modelu/Scaffaldio

Dangosodd y holl ddata a ddadansoddwyd bod y disgybl yn deall rhywbeth yn well os fyddai'n cael ei modelu gyntaf. Noda UNICEF (2011) bod plant a hyd yn oed oedolion yn dysgu orau with clywed a gweld gweithredodd neu ffordd o feddwl byddwn yn hoffi iddynt i fodelu. Yn ogystal â hyn fydd y disgybl yn buddio o scaffaldu wrth i'r oedolyn cynorthwyo'r plentyn i

adeiladu gwybodaeth a dealltwriaeth ei hun (Siencyn, 2008). Nid oeddwn wedi cyflwyno'r llinell rhif yn fathemateg yn drwyadl oherwydd nododd yr athrawes bod y dosbarth yn hyderus yn eu defnyddio. Er hynny, gan nad oeddwn wedi modelu sut i ddefnyddio'r llinell rhif i gyfri ymlaen i gyfri newid nid oedd y disgybl yn deal sut i'w ddefnyddio cywir. Ar ol dangos roedd y disgybl yn cyfri o'r man cywir. Datblygodd Bandura (1925) y ddamcaniaeth dysgu gymdeithasol sef bod plant yn dysgu o wyllo pobl eraill ac yn dynwared yr hyn maent yn gweld. Trwy fodelu a scaffaldio gwybodaeth i'r dysgwyr mae'n deall y dasg. Wrth i'r athrawes sy'n dysgu'r disgybl trwy fodelu neu scaffaldio mae modd adeiladu ar wybodaeth flaenorol ac iddi addasu i'r hyn mae eisoes wedi dysgu.

Enghraifft arall yw plannu ffa, ar ol dangos unwaith a modelu'r cyfarwyddiadau mae'n deall y dasg. Oherwydd ddeallodd y gwaith roedd y gwaith olynol o ysgrifennu cyfarwyddiadau a threfnu tyfiant ffa yn gywir. Adeiladodd Bruner ar y damcaniaeth adeileddiaeth gymdeithasol wrth nodi mae disgyblion yn adeiladu ar wybodaeth ond yn addasu'r gyda'r wybodaeth mae eisoes wedi dysgu (Siencyn, 2006). Gyfer y dyfodol mae angen sicrhau bod yr athrawon neu gynorthwyydd dysgu yn modelu ac y scaffaldu y dasg i'r disgybl fel sy'n addas i'r dasg. Trwy fodelu yn gywir ac yn addas gall y disgybl deall y dasg ac yn fwy hyderus yn ystod y gwersi fydd o fudd i'w lles a'i hunan hyder. Sonia Estyn (2016) sut mae ysgolion medru scaffaldu disgyblion yn ormodol gan nid ydynt yn medru ysgrifennu yn annibynnol gan fod yr ysgolion wedi bod yn darparu llawer o adnoddau cymorth ac maent wedi dod yn gôr dibynnol ar yr adnoddau yma. Mae angen fel ymarferwyr ein bod ymwybodol o faint o gymorth rydym yn mynd i ddarparu wrth fodelu neu scaffaldio gan fod argymhellion Donaldson (2015) yn ddyfodol llwyddiannus yn annog dysgwyr uchelgeisiol a galluog.

Casgliad

Wrth ddod i gasgliad, gyda'r dystiolaeth casglwyd mae'r cam ymlaen i'r disgybl oedd ddatblygu meddylfryd twf a'i ddatblygu ei hunan hyder i ateb cwestiynau a bod yn fwy hyderus o fewn yr ystafell dosbarth ac i beidio rhoi'r gorau iddi. Cael ymyrraeth tric a chlic er mwyn iddi adnabod llythrennau megis d, b, ll, th, rh er mwyn ddatblygu ei sgiliau darllen ac hefyd modelu/scaffaldio. Trwy ddefnyddio'r dull mosaig roedd yna gyfyngiadau. Nid ydynt yn gyfarwydd ar ddull ar roedd angen i ni ddeall y dull. Ond 19 diwrnod ysgol rydym wedi bod ar

ymarfer dysgu ac yn heriol i ddadansoddi'r dysgwyr pam nad ydynt yn ymwybodol o'i llawn botensial eto. Roedd amser yn erbyn i gasglu'r holl ddata gyfer cyflawni'r dull mosaig a chydabyddir bod y dull mosaig yn cymryd amser i gasglu'r data ac amser i'w dadansoddi. Mae'r tymor wedi bod yn un prysur yn yr ysgol gydag ymarferion a mabolgampau ysgol, profion cenedlaethol blwyddyn 2 yn amharu ar yr uned blwyddyn 1 a 2 ac ymarferion eisteddfod yr urdd. Er mwyn ddatblygu fy nealltwriaeth o gymedroli a lefelu gwaith blwyddyn 2 mae angen manteision ar y cyfle i fynychu diwrnod hyfforddiant mewn swydd ERW ar gymedroli a disgwyliadau deilliant 5. Sonia ERW (2019) bod y rhaglennu hyfforddiant ANG ERW yn gyrsiau sy'n darparu yn cymorth a dealltwriaeth i athrawon am yr hyn sy'n ddisgwyliedig.

Nifer o eiriau -

Cyferinodi

Blaxter, L., Hughes, C. a Tight, M. (2007) *How to research*. (3ydd arg) Maidenhead: Open Univeristy Press.

Bell, W. a Walters, S. (2014) *Doing Your Research Project: A Guide for First-Time Researchers*. (6ed arg) Maidenhead: Open Univeristy Press. [e-lyfr]. Ar gael yn https://books.google.co.uk/books/about/Doing_Your_Research_Project.html?id=Uo9FBgAAQBAJ&printsec=frontcover&source=kp_read_button&redir_esc=y#v=onepage&q&f=false [Darllenwyd 10 Mai 2019].

British Educational Research Association [BERA] (2018)
'Ethical Guidelines for Educational Research' Ar gael yn:
<https://www.bera.ac.uk/researchers-resources/publications/ethicalguidelines-for-educational-research-2018> [Darllenwyd 8 Mai 2019].

Chwaraeon Cymru (Dim dyddiad) 'Llythrennedd Corfforol' Ar gael yn:
<http://sport.wales/chwaraeon-cymunedol/addysg/llythrennedd-corfforol.aspx> [Darllenwyd 28 Mai 2019].

Clark, A. and Moss, P. (2011) *Listening to Young Children: The Mosaic Approach* (2nd ed) London: National Children's Bureau, [e-book]. Available at: <https://www-dawsonera-com.ezproxy.uwtsd.ac.uk/readonline/9781907969423>

Comisiynydd Plant Cymru (Dim Dyddiad) 'CCUHP – Hawliau Plant' Ar gael yn:
<https://www.complantcymru.org.uk/ccuhp-hawliau-plant/ccuhp/> [Darllenwyd 9 Mai 2019].

Cyngor y Gweithlu Addysg (2016) 'Cod Ymddygiad ac Ymarfer Proffesiynol ar gyfer cofrestreion gyda Chyngor y Gweithlu Addysg' Ar gael yn:
<http://www.ewc.wales/site/index.php/cy/chwilio.html?q=cod+ymddygiad&Search> [Darllenwyd 8 Mai 2019].

Donaldson, G. (2015) 'Dyfodol Llwyddiannus' Ar gael yn:

<https://gov.wales/docs/dcells/publications/150225-successful-futures-cy.pdf> [Darllewnwyd: 24 Mai 2019].

Dweck, C. (2016) 'What Having a "Growth Mindset" Actually Means' Ar gael yn:

<https://hbr.org/2016/01/what-having-a-growth-mindset-actually-means> [Darllenwyd 25 Mai 2019].

Education Endowment Foundation (Dim dyddiad) 'Metacognition and self-regulation' Ar gael yn: <https://educationendowmentfoundation.org.uk/evidence-summaries/teaching-learning-toolkit/meta-cognition-and-self-regulation/> [Darllenwyd 25 Mai 2019].

Estyn (2007) 'Gwella dysgu ac addysgu medrau darllen cynnar - Mehefin 2007' Ar gael yn:

<https://www.estyn.llyw.cymru/sites/default/files/documents/Arsylwi%20ystafelloedd%20dosbarth%20yn%20effeithiol%20mewn%20ysgolion%20cynradd%20ac%20uwchradd%20-%20Hydref%202014.pdf> [Darllenwyd 27 Mai 2019].

Estyn (2014) 'Arsylwi ystafelloedd dosbarth yn effeithiol mewn ysgolion cynradd ac uwchradd' Ar gael yn:

<https://www.estyn.llyw.cymru/sites/default/files/documents/Arsylwi%20ystafelloedd%20dosbarth%20yn%20effeithiol%20mewn%20ysgolion%20cynradd%20ac%20uwchradd%20-%20Hydref%202014.pdf> [Darllenwyd 22 Mai 2019].

Estyn (2016) 'The Annual Report of Her Majesty's Chief Inspector of Education and Training in Wales' Ar gael yn:

https://www.estyn.gov.wales/sites/default/files/documents/Estyn_Annual%20Report_2018_English_Accessible.pdf [Darllenwyd 25 Mai 2019].

Estyn (2017) [REDACTED]
[https://www.estyn.llyw.cymru/sites/default/files/documents/Ysgol%20\[REDACTED\].pdf](https://www.estyn.llyw.cymru/sites/default/files/documents/Ysgol%20[REDACTED].pdf)
[Darllenwyd 8 Mai 2019].

Estyn (2018) 'Creu strategaethau i ddatblygu annibyniaeth disgyblion' Ar gael yn:
<https://www.estyn.llyw.cymru/arfer-effeithiol/creu-strategaethau-i-ddatblygu-annibyniaeth-disgyblion> [Darllenwyd 27 Mai 2019].

ERW (2019) 'NEWLY QUALIFIED TEACHERS' Ar gael yn:
<https://www.erw.wales/schools/leading-learning/newly-qualified-teachers/#Induction>
[Darllenwyd 27 Mai 2019].

Education Endowment Foundation (Dim dyddiad)
<https://educationendowmentfoundation.org.uk/evidence-summaries/teaching-learning-toolkit/meta-cognition-and-self-regulation/>

Gray, C. a McBlain, S. (2012) *Learning theories in Childhood*. London: SAGE Publication Ltd

Grigg, R. (2010) *Becoming An Outstanding Primary School Teacher*. Harlow: Pearson Education Limited.

Greenfield, C. (2011) 'Personal Reflection on Research Process and Tools: Effectiveness, Highlights and Challenges in using the Mosaic Approach' *Australasian Journal of Early Childhood*, 36(3), tt.109–116.

Hattie, J. (2009) *Visible Learning: A Synthesis of Over 800 Meta-analyses Relating to Achievement*. Llundain: Routledge

Llywodraeth Cymru (2014) 'Ailysgrifennu'r dyfodol Codi uchelgais a chyrhaeddiad yn ysgolion Cymru' Ar gael yn: <https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-03/ailysgrifennu%E2%80%99r-dyfodol-codi-uchelgais-a-chyrhaeddiad-yn-ysgolion-cymru.pdf> [Darllenwyd 25 Mai 2019].

McAteer, M. (2012) *Improving Primary Mathematics Teaching and Learning*. Maidenhead: Open Univeristy Press.

My Local School (2018) [REDACTED]
<http://mylocalschool.wales.gov.uk/School/6692116?lang=en> [Darllenwyd 5 Mai 2019].

Nottingham, J. (2013) *Encouraging Learning*. Oxon: Routledge [e-book]. Available at:
<https://www-dawsonera-com.ezproxy.uwtsd.ac.uk/abstract/9780203559079>

Nottingham, J. (2018) 'The Learning Challenge: guiding students through the Learning Pit' Ar gael yn: <https://www.jamesnottingham.co.uk/learning-pit/> [Darllenwyd 25 Mai 2019].

Peniarth (2015) 'Cynllun Tric a Chlic' Ar gael yn:
https://www.canolfanpeniarth.org/tric_a_chlic [Darllenwyd 27 Mai 2019].

Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant. (2017) 'Research Ethics & Integrity Code of Practice'
Ar gael yn: <https://www.uwtsd.ac.uk/media/uwtsd-website/content-assets/documents/research/research-ethics-integrity-code-practice.pdf> [Darllenwyd 8 Mai 2019].


Siencyn, S, W. (2008) Y Cyfnod Sylfaen 3-7 oed Athroniaeth, Ymchwil ac Ymarfer.
Caerfyrddin: Cyhoeddiadau Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant.

The Guardian (2018) 'Research every teacher should know: growth mindset' Ar gael yn:
<https://www.theguardian.com/teacher-network/2018/jan/04/research-every-teacher-should-know-growth-mindset> [Darllenwyd 25 Mai 2019].

UNICEF (2011) 'Guideline 3B Use positive modelling' Ar gael yn:
https://www.unicef.org/cwc/cwc_58680.html [Darllenwyd 25 Mai 2019].

Atodiadau

Atodiad 1 – Proffil dewch i'ch nabod

<u>Proffil "Dod i'ch 'Nabod'</u>	
Fy enw i yw 	Hunanbortread 
Rydwi i'n <u>6</u> oed	
Fy hoff le yn yr ysgol yw <u>Ar y jard.</u>	
Rwy'n hoffi <u>bwyta hieh</u> <u>ia</u>	
Fy hoff pwnc yw <u>Mis Gohes</u>	

Atodiad 2 – Ffurflen canitâd wrth yr ysgol

ENW'R YSGOL (PRINTIWCH OS GWELWCH YN DDA):
YSGOL Y DDERWEN

ENW'R UWCH FENTOR / MENTOR DOSBARTH (PRINTIWCH OS GWELWCH YN DDA):
TELORI JONES JILAN EVANS

ENW'R UWCH FENTOR / MENTOR DOSBARTH (LLOFNODWCH OS GWELWCH YN DDA):
Jones. D. - Jones.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau ynglŷn â hyn, yna cysylltwch ag : Arweinydd y Rhaglen
 Mathew Jones M.Jones@uwtsd.ac.uk

Diolch yn fawr o flaen llaw

DYLID CYNNWYS COPI WEDI'I LOFNODI YN ATODIAD YR ASEINIAD

Atodiad 3 – Ffurflen canitâd – y fam

As Parent/Guardian of Ava Robinson-Williams (pupil name),
 I do / ~~do not~~ give consent (please delete) for my child to take part in this project.

Signed Jalaine (Parent/Guardian).

Date 3/5/19

Atodiad 4 – Cofnod darllen

Cofnod Darllen

Enw'r dysgwr: _____ Oedran darllen (os ydych yn ei wybod): _____

Dyddiad	Teitl y llyfr a rhifau tudalennau a ddarllenwyd	Math o lyfr e.e. ffuglen, drama, barddoniaeth	Sylwadau (e.e. darllen er mwynhad, adnabod geiriau, dealltwriaeth o'r testun, dehongliad, ystod darllen)
13/05	Y Syrcaas	Llyfr 8.	Cymysgu tan wedi a llo. Ailadrodd fel ydych yn diwedd mae'n deall. Rhaid muddul law raddol
14/05	Y Syrcaas	Llyfr 8	Tori germau lawr er mwyn darllen.
16/05	Y Syrcaas		Cymysgu tan amser a rhaid Newid llyfr → Mair Lladron
16/05	Mair Lladron.		Yn gweld y ~~llyfr~~ llyfr yn hen y dechrau

Dylid defnyddio'r ffurflen hon ar ôl darllen polisi darllen yr ysgol, os ydyw ar gael



Cofnod Darllen

Enw'r dysgwr: _____ Oedran darllen (os ydych yn ei wybod): _____

Dyddiad	Teitl y llyfr a rhifau tudalennau a ddarllenwyd	Math o lyfr e.e. ffuglen, drama, barddoniaeth	Sylwadau (e.e. darllen er mwynhad, adnabod geiriau, dealltwriaeth o'r testun, dehongliad, ystod darllen)
21/05	Y Syrcaas. Dw'n darllen	Llyfr 6	Helo, Syrcaas. Gorau gath Awa trafeith ond mae'r llyfr yn ailadrodd fel ydych yn diwedd mae'n deall y geiriau.
31/05	Deinororiad Dw'n darllen. Wedi symud ymlaen cam.	Llyfr 7	Wedi symud ymlaen cam. Wedi cymysgu tan b ad ac mae'n adnabod h. Cymysgu mae a puma yn y dechrau. Credau mae'n a feli. Traethu gycha pawb part. Hysurid cymysgu puma a mae. Darllen lloes yn anghygu. Dim mws hyde y cam yma.
13/05	Deinororiad Dw'n darllen ~~Wedi symud ymlaen cam~~	Llyfr 7	


Dylid defnyddio'r ffurflen hon ar ôl darllen polisi darllen yr ysgol, os ydyw ar gael

Atodiad 5 – Gwaith Gwybodaeth a Dealltwriaeth o'r byd. Wedi deall y gwaith a cyflawni y nod.





Atodiad 6. Mathemateg. Wedi deall creu cyfansymiau arian, heb deall newid



Fe brynais i...	Talwyd	Faint o newid ces i?
Pêl 18c 		
Ffa 15c 		
Het 12c 		
Bwced 8c 		

Cofnod Olrhain

System raddio goleuadau traffig

Yr Athrofa
Institute of Education
Adding Quality, Enhancing the Future

nod yn annibynnol (ar y cyfan);
Melyn= Wedi cwrrd â'r nod gyda
chymorth athro; Coch = Angen
cefnogaeth ddwys/ ymarfer
pellach

Dosbarth: Blwyddyn 1		Oed y Dysgwyr: 5/6	Dyddiad: 23/05/19
Nod y wers: (yn unol â'r cynllun gwers) I rhoi newid feysull lleosrifau o ddeg.		Meini prawf llwyddiant: (yn unol â'r cynllun gwers)	
Enwau'r Dysgwyr (fesul grŵp)	Gradd C/O/G	Y camau nesaf i'r dysgwyr (fesul grŵp neu fesul unigolyn)	Effaith ar gynllunio dilynol
	O	Oren angen peth cymorth i cyfawni y dasg. Nid oeddent yn hollol sicrhau o'r cysyniad. Angen llinell rhif fel adnodd i gweithu	Ar ol hanner ni fyddwn yn symud ymlaen i siap fyddwn yn parhau gyda newid gan bod nifer gweld rhoi newid yn heriol. Byddwn yn ail adolygu
	C		
	O	Coch. Nid oeddent yn deall y dasg. Angen cymorth cyson. Ddim yn cyfri ar y mas cywir ar y llinell rhif.	
	C		
	C		
	ABS		
	C		
	C		
	O		
	O		
C			